**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid**
**Minister for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

1 Mai 2013

Annwyl Jocelyn,

Diolch ichi am fy ngwahodd i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i ymchwiliad i'r prosesau gorau ar gyfer ymdrin â'r gyllideb.

Fel y mae'r Pwyllgor yn gwybod, mae Bil Cymru ar ei hynt drwy Senedd y DU ar hyn o bryd. Mae'r Bil hwn yn gweithredu'r rhan fwyaf o argymhellion adroddiad cyntaf Comisiwn Silk, gan gynnwys datganoli trethi, cynyddu pwerau benthyca a diwygio gweithdrefnau cyllidebol. Cynhaliwyd trafodaethau helaeth gyda Llywodraeth y DU yn ystod y broses hon, a chadarnhawyd cefnogaeth Llywodraeth Cymru i bob un o argymhellion Silk, yn ogystal ag i adroddiad Comisiwn Holtham lle bo hynny'n briodol.

Mae'r trafodaethau â Llywodraeth y DU yn dal i fynd rhagddynt wrth i Fil Cymru ddilyn ei hynt, er mwyn dod i ddeall holl effaith gweithredu'r newidiadau hyn. Rydym yn dal i geisio cynyddu hyblygrwydd Llywodraeth Cymru o fewn fframwaith ariannol sydd newydd ei ddatganoli. Ar yr un pryd, rydym yn sylweddoli y bydd angen sicrhau cydbwysedd o ran swyddogaeth ganolog barhaus Trysorlys Ei Mawrhydi.

Mae'r Pwyllgor eisoes yn ymwybodol o'm hymrwymiad i adeiladu ar y gwaith blaenorol er mwyn gwneud ein cynlluniau gwario'n fwy tryloyw a'u cyflwyno'n well, gan archwilio'r cysylltiadau rhwng cyllidebau a chanlyniadau. Bydd y gwaith hwn yn parhau, ond datblygu fframwaith sy'n 'addas i'r diben', er mwyn adlewyrchu ein pwerau ariannol newydd yng nghyd-destun datganoli trethiant a benthyca, fydd y brif flaenoriaeth wrth inni ddiwygio ein trefniadau cyllidebol.

Mae'n ddyddiau cynnar arnom o ran datblygu ein dull gweithredu, wrth i oblygiadau Bil Cymru ddod yn amlwg, ac mae'n hanfodol ein bod yn eu hystyried yn drwyadl ac yn brydlon. Rydym wedi hen arfer gweithio'n dda gyda'n gilydd, ac rwy'n croesawu ymchwiliad y Pwyllgor i'r maes hwn yn fawr iawn. Rwy'n edrych ymlaen at glywed barn y Pwyllgor. Fe

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

fyddaf, wrth reswm, yn barod i drafod y materion hyn ymhellach pan ddof i'r Pwyllgor ar 14 Mai i roi tystiolaeth ynglŷn â'r ymchwiliad hwn ac ynglŷn â'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cymru.

Yn gywir



**Jane Hutt AC / AM**

Y Gweinidog Cyllid
Minister for Finance